# ROBERTS, THOMAS (1884 - 1960), addysgwr ac ysgolhaig

**Enw:** Thomas Roberts
**Dyddiad geni:** 1884
**Dyddiad marw:** 1960
**Priod:** Gwyneth Roberts (née Edwards)
**Rhiant:** John Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** addysgwr ac ysgolhaig
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd 26 Rhagfyr 1884 yn y Pandy, Llanuwchllyn, Meirionnydd, yn fab i John Roberts. Addysgwyd ef yn ysgol Llanuwchllyn, ysgol sir y Bala a Choleg y Brifysgol, Bangor. Cafodd radd B.A. gydag anrhydedd yn y Gymraeg yn 1907, a gradd M.A. yn 1910. Bu'n athro ysgol yn Abertyswg, Mynwy, 1907-08, ac mewn ysgol yn Llundain 1908-10. Yna penodwyd ef yn athro Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn y Coleg Normal, Bangor, ac yn is-brifathro yn 1920, a daliodd y swydd nes ymddeol yn 1949.

Dechreuodd Thomas Roberts ymddiddori'n gynnar yn hanes a gwaith Beirdd yr Uchelwyr, a pharhaodd ei ddiddordeb ar hyd ei oes. Testun ei draethawd M.A. yn 1910 oedd barddoniaeth Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan. Yn 1914 cyhoeddodd *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* yng nghyfres *The Bangor Welsh MSS Society*. Casglwyd copïau o'r cerddi o lawer o lawysgrifau, ond nid amcanwyd at lunio testun safonol na rhestru darlleniadau amrywiol. Y mae'n amlwg fod y blynyddoedd hyn yn rhai prysur iawn i Thomas Roberts, oherwydd yn 1914 hefyd y bu'n cydweithio ag Ifor Williams i gynhyrchu *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i gyfoeswyr*. Ef oedd yn gyfrifol am y rhagymadroddion ac am destun cywyddau'r cyfoeswyr - Gruffudd ab Adda, Madog Benfras, Gruffudd Gryg a Llywelyn Goch. Yn yr ail argraffiad yn 1935 ychwanegodd Thomas Roberts rai cywyddau a diwygiodd y rhagymadroddion. Yn 1925 cydweithiodd eto â Henry Lewis ac Ifor Williams ar y casgliad *Cywyddau Iolo Goch ac eraill*, gan fynd yn gyfrifol am gerddi Gruffudd Llwyd ac Ieuan ap Rhydderch, ac ar gyfer yr ail argraffiad yn 1937 helaethodd y rhagymadroddion a diwygiodd destunau'r cywyddau. Bu bwlch go hir rhwng hyn a'r gyfrol nesaf, sef *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn* yn 1958. Dilynir yr un patrwm yma, sef rhagymadrodd llawn ar fywyd a theulu a chefndir y beirdd, trafod dilysrwydd y cerddi, ac un elfen newydd, sef ymdriniaeth â'r grefft fydryddol. Rhoir testun safonol wedi ei seilio ar bob llawysgrif oedd ar gael, ac yna nodiadau pur fanwl. Yn y gyfrol hon y gwelir y golygydd ar ei orau.

Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn fe ysgrifennodd Thomas Roberts amryw o erthyglau ar ei ddewis faes. Yn ei holl waith yr oedd yn dra thrwyadl ac yn ofalus iawn i gynnal safonau uchaf ysgolheictod yn ddi-feth.

Priododd â Gwyneth Edwards o Landudno yn 1920, a bu iddynt un ferch. Bu farw 25 Awst 1960.

## Awdur

**Syr Thomas Parry**, (1904 - 1985)

## Ffynonellau

Gwybodaeth o archifau'r Coleg Normal a chan Mrs. Llio Ellis-Williams

gwybodaeth bersonol

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821228

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cifrannu